# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA670 - The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2016 (Saesneg yn unig)

## Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn darparu ar gyfer rheoleiddio "gweithgareddau perygl llifogydd". Maent yn sefydlu trefn newydd dan y fframwaith Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer rheoleiddio gweithgareddau ar neu'n agos at gyrsiau dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r drefn newydd hon yn golygu y bydd gweithgareddau perygl llifogydd yn cael eu hintegreiddio mewn i'r fframwaith Trwyddedu Amgylcheddol sydd eisoes yn bodoli. Bwriedir y bydd hyn yn fwy syml na'r drefn bresennol lle mai gweithgareddau perygl llifogydd yn gweithredu dan gyfundrefnau amrywiol.

## Gweithdrefn

Y Weithdrefn gyfansawdd

## Craffu Technegol

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno dan Reol Sefydlog 21.2(ix) mewn perthynas â'r offeryn hwn, sef nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Offeryn cyfansawdd yw hwn, ac mae yn y Saesneg yn unig. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r esboniad yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau, syn dweud:

"As this instrument will be subject to both the National Assembly for Wales and UK Parliamentary scrutiny, it is not considered reasonably practicable for this instrument to be made or laid bilingually." (Saesneg yn unig)

## Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i'w cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Du. O ganlyniad, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r Offeryn hwn gael ei osod na'i wneud yn ddwyieithog.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**21 Ionawr 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales